# Y CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD TRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH, 6 HYDREF 2020 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Andrews – Y Maer
Y Cynghorydd J. Gale – Y Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

M. Adams, Mrs E.M. Aldworth, A.P. Angel, J. Bevan, P.J. Bevan, C. Bezzina, L.J. Binding, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, Miss E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, R.W. Gig, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Havard, A.G. Higgs, A. Hussey, M.P. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B.A. Jones, S. Kent, G. Kirby, C.P. Mann, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, B. Owen, Mrs T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski.

Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd), K. Peters (Rheolwr Polisi), A. Cullinane (Uwch Swyddog Polisi - Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Couzens (Rheolwr Tai), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai ar gael i'r cyhoedd trwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai pleidleisiau'n cael eu cofnodi trwy Microsoft Teams Forms.

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Cushing, K. Dawson, C. Forehead, E. Forehead, J. Fussell, D. Hardacre, D. Harse, V. James, A. Leonard, P. Leonard, G. Oliver a D. Price.

## 2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Dywedodd y Maer, oherwydd y cyfyngiadau symud lleol parhaus, mai dim ond un digwyddiad dinesig a gynhaliwyd, sef neges wedi'i recordio a danfon blodau i ddathlu Pen-blwydd Priodas Aur.

## 3. DERBYN DEISEBAU O DAN REOL TREFNIADAETH 28(03)

Cadarnhaodd y Maer nad oedd unrhyw ddeisebau wedi'u derbyn.

## 4. CYFLWYNO GWOBRAU

Cadarnhaodd y Maer nad oedd unrhyw wobrau i'w cyflwyno.

## 5. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### DATGANIAD GAN AELOD Y CABINET DROS OFAL CYMDEITHASOL – Y CYNGHORYDD SHAYNE COOK

Dywedodd y Maer wrth y Cyngor, gyda'i chytundeb, y byddai Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol yn gwneud datganiad byr, ac ni fyddai cwestiynau ar ei ôl.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at erthygl a gyhoeddwyd ar y wefan Wales Online a oedd yn cyfeirio at nifer uchel o achosion o'r coronafeirws mewn cartrefi gofal ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Roedd yr erthygl yn cynnwys gwybodaeth a sylwadau a ddarparwyd gan un o Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Plaid Cymru ac roedd yn cynnwys nifer o anghywirdebau difrifol. Y prif anghywirdeb oedd honiad bod achosion COVID-19 mewn dros draean o'n cartrefi gofal.

Dywedodd yr erthygl fod achosion parhaus o'r Coronafeirws mewn 10 o 27 o gartrefi gofal yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn anghywir gan fod 11 o achosion COVID-19 ar draws 121 o gyfleusterau gofal, nid 27 o gyfleusterau fel y nodwyd yn yr erthygl.

Aeth yr erthygl ymlaen i ddweud "nad oes cytundeb terfynol ynglŷn â ph'un a fyddai pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty i gartrefi gofal yng Nghymru yn cael eu profi mewn gwirionedd". Mae hyn yn anghywir hefyd ac yn gamarweiniol.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gytundeb gyda'r holl awdurdodau lleol eraill yng Ngwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan y mae pawb yn glynu wrtho o ran profion negyddol cyn derbyn neu ddychwelyd i gartref. Nid oes neb yn cael ei dderbyn i gartref o'r ysbyty neu'r gymuned heb gael prawf negyddol am y feirws yn gyntaf.

Mynegodd yr Aelod o'r Cabinet ei syndod bod Aelod Cynulliad Rhanbarthol wedi rhoi gwybodaeth mor gamarweiniol ar adeg pan na ddylai unrhyw un fod yn ceisio manteisio'n wleidyddol ar sefyllfa heriol iawn. Ar ôl darllen yr erthygl yn Wales Online, roedd llawer o drigolion yn bryderus iawn ac yn ofni bod eu perthnasau mewn perygl. Roedd yr Aelod o'r Cabinet eisiau tawelu meddwl trigolion Caerffili ein bod yn gwneud ein gorau glas i atal COVID-19 rhag lledaenu, a diolchodd i'r holl staff yn ein cartrefi gofal sydd wedi gwneud mwy na'r disgwyl i ddiogelu trigolion rhag COVID-19.

**6. COFNODION – CYFARFOD Y CYNGOR ARBENNIG A GYNHALIWYD AR 20 CHWEFROR 2020**

PENDERFYNWYD cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2020 yn gofnod cywir.

**7. COFNODION – CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 3 MAWRTH 2020**

PENDERFYNWYD cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2020 yn gofnod cywir.

**8. COFNODION – CYFARFOD Y CYNGOR ARBENNIG A GYNHALIWYD AR 10 MAWRTH 2020**

PENDERFYNWYD cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2020 yn gofnod cywir.

**9. COFNODION – CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 3 MEDI 2020**

PENDERFYNWYD cymeradwyo bod cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Medi 2020 yn gofnod cywir.

**10. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL TREFNIADAETH 10 (2)**

At Arweinydd y Cyngor gan y Cynghorydd Graham Simmonds.

Sicrhau bod asesiadau/adroddiadau perfformiad ar gael i Aelodau Cabinet gwybodus a phrofiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer yr ychydig flynyddoedd diwethaf?

Yr ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd P. Marsden.

Diolch am y cwestiwn, Gynghorydd Simmonds. Mae'n ymddangos o'r ffordd yr ysgrifennoch eich cwestiwn yr hoffech i mi sicrhau bod asesiadau perfformiad 'ar gael' i'm cydweithwyr yn y Cabinet ar gyfer yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Y geiriau 'ar gael' yw'r rhai sy'n peri trafferth i mi. Gadewch i mi esbonio. Mae'r wybodaeth ganlynol eisoes ar gael i'r cyhoedd trwy wefan y Cyngor, a hynny ers blynyddoedd lawer.

Adroddiadau Blynyddol ar gyfer Aelodau Unigol sydd, ar gyfer Aelodau'r Cabinet, yn cynnwys adran benodol ar Weithgarwch Aelod y Cabinet yn ogystal â Gweithgarwch y Ward, Presenoldeb ac yn y blaen. Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad i'r Cyngor sy'n ymdrin â pherfformiad ar draws holl Bortffolios y Cabinet. Mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn yr un nesaf ar 29 Hydref. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi perfformiad y Cyngor yn erbyn ein hamcanion llesiant; ein perfformiad ariannol; ein perfformiad yn erbyn y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus; safbwyntiau ein Rheoleiddwyr ar ein gwasanaethau a diweddariad ar ein cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant 2015. Mae pob Pwyllgor Craffu yn cael adroddiadau blynyddol ar berfformiad sy'n gysylltiedig â chynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd. Mae Pwyllgorau Craffu hefyd yn derbyn adroddiadau penodol ar faterion perfformiad allweddol wrth iddynt godi drwy gydol y flwyddyn, fel perfformiad Cyfnod Allweddol 4 ar draws Ysgolion. Mae Archwilio Cymru yn cyflwyno Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cabinet a'r Cyngor llawn sy'n rhoi safbwynt yr Archwilydd Cyffredinol i ni ynglŷn â ph'un a yw Caerffili yn bodloni ei gofynion statudol o ran gwelliant parhaus, ac mae'r Cyngor yn derbyn ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i Adroddiadau rheolaidd gan Reoleiddwyr sy'n asesu ac yn gwneud sylwadau ar ein perfformiad.

Dylai'r Cynghorydd Simmonds hefyd fod yn ymwybodol bod y Cabinet wedi cymeradwyo fframwaith perfformiad newydd yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror 2020. Cyflwynodd y fframwaith Ddangosfwrdd Asesu Perfformiad Corfforaethol (CPA) sydd i'w dderbyn ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet, yn ogystal ag Asesiadau Perfformiad Cyfarwyddiaeth, y bydd Pwyllgorau Craffu'n derbyn data ohonynt ddwywaith y flwyddyn. Bydd y rhain yn cael eu derbyn am y tro cyntaf yn ystod yr hydref a'r gaeaf.

Gan fod hyn i gyd ar gael i'r cyhoedd, a bod cyfleoedd niferus a rheolaidd ar gael i Bwyllgorau Craffu a'r Cyngor Llawn ystyried pob agwedd ar Berfformiad y Cyngor, nid wyf yn siŵr beth arall yr hoffai'r Cynghorydd Simmonds i mi sicrhau ei fod ar gael.

Trwy gyfrwng cwestiwn atodol, cyfeiriodd y Cynghorydd Simmonds at sylwadau blaenorol a wnaed gan Arweinydd y Cyngor ynglŷn â dechreuadau newydd a thaith a rennir tuag at drawsnewid, a mynegodd ei farn bod amryw elfennau o'r ymrwymiad hwn wedi methu'r nod. Atgoffodd y Maer yr Aelod fod ganddo hawl i ofyn un cwestiwn atodol a'i fod yn mynd y tu hwnt i hyn yn ei anerchiad. Felly, dywedodd yr Aelod y byddai'n tynnu'r cwestiwn yn ôl ac yn anfon neges e-bost at yr holl Aelodau ar ôl y cyfarfod.

**11. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL TREFNIADAETH 10(4)**

At Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Gwasanaeth Cwsmeriaid gan y Cynghorydd Kevin Etheridge.

Gofyn i Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Gwasanaeth Cwsmeriaid a yw hi'n credu yr oedd digon o adnoddau ar gael yn yr Uned Wybodaeth i ymdopi â cheisiadau o fewn y raddfa amser benodol a ganiateir o dan y ddeddfwriaeth yn ystod y 4 mis diwethaf, ac a ellir diffinio'r adnoddau hyn wrth fodloni terfynau amser.

Yr ymateb gan Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Gwasanaeth Cwsmeriaid.

Ers mis Mawrth, mae'r Cyngor wedi bod yn ymateb i'r pandemig COVID-19, a bu'n rhaid i staff o bob maes gwasanaeth, gan gynnwys yr Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol (CIGU), ymgymryd â thasgau hanfodol eraill. Yn ystod wythnosau cyntaf y cyfyngiadau symud, gostyngodd nifer y ceisiadau am wybodaeth yn sylweddol, a threuliodd staff y CIGU amser yn cefnogi'r Ymateb Cymunedol. Fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu'n ôl i'w swm arferol dros amser.

Roedd y graddfeydd amser ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth yn hirach nag arfer yn ystod y cyfnod hwn, sy'n adlewyrchu'r ffaith nad oedd meysydd gwasanaeth a'r CIGU yn gallu prosesu ceisiadau mor brydlon ag arfer, gan fod staff ar draws y Cyngor wedi cael eu dargyfeirio i ymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, cyhoeddodd y Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr ar gyfer rhyddid gwybodaeth a diogelu data, ei hymagwedd bragmatig ac empathetig at reoleiddio yn ystod y pandemig, yn sgil y gofyniad i sefydliadau ailgyfeirio adnoddau i gefnogi eu cymunedau.

Mae staff y CIGU yn ôl yn eu rolau parhaol, ond mae staff ar draws meysydd gwasanaeth yn parhau i weithio ar yr ymateb i COVID-19. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn monitro graddfeydd amser cydymffurfio ac yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad ceisiadau sydd wedi cronni, ac os bydd angen gwella graddfeydd amser cydymffurfio, bydd hyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r ymateb i'r pandemig.

**ADRODDIADAU SWYDDOGION**

## 12. HYSBYSIAD O GYNNIG I ADOLYGU'R PENDERFYNIAD I DDIFFODD GOLEUADAU STRYD

Rhoddwyd ystyriaeth i'r hysbysiad o gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Kevin Etheridge.

I gefnogi ei hysbysiad o gynnig, dywedodd y Cynghorydd Etheridge ei fod wedi cael ei ysgrifennu ym mis Ionawr ac y disgwyliwyd iddo gael ei drafod gan y Pwyllgor Craffu ym mis Mawrth, ond ei fod wedi cael ei ohirio oherwydd COVID-19. Esboniodd fod y cynnig yn edrych ar sawl ardal a'i fod wedi cael ei ysgrifennu ar ôl iddo gael rhwng 40 a 60 o gwynion gan drigolion yn y Coed-duon. Roedd hefyd o'r farn bod yr ymateb i'r ymgynghoriad wedi bod yn ganran rhy isel i fesur teimladau'r cyhoedd ynglŷn â'r mater yn gywir, gyda 1488 o ymatebion yn unig o boblogaeth o 173,000, sy'n cyfateb i ymateb gan 0.83% o'r gymuned yn unig. Roedd ei ail bwynt yn ymwneud â'r adroddiad o 2018 a oedd yn nodi efallai y byddai angen cynnal ymgynghoriad arall cyn gweithredu; nid yw'n credu bod hyn wedi digwydd.

Roedd ei drydydd pwynt yn ymwneud â diffyg asesu nodweddion gwarchodedig yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wrth wneud y penderfyniad. Daethpwyd i gasgliadau goddrychol ynglŷn â'r effaith bosibl ar bobl â nam ar y golwg a'r henoed, ac roedd yn ymddangos eu bod wedi'u defnyddio'n bennaf i hyrwyddo'r achos dros leihau carbon a gwarchod ystlumod, nad oeddent yn berthnasol i'r cynigion yn ei farn ef. Teimlai hefyd fod y mater hwn yn ymwneud â mynd i'r afael ag ofn troseddau, yn ogystal â chyflawni troseddau, a chyfeiriodd at sut mae goleuadau stryd wedi bod yn rhan allweddol o ddiogelwch cymunedol ers dros 6 degawd. Wrth orffen ei gynnig, dywedodd fod y pwyllgor craffu wedi ystyried 2 adroddiad ar y mater hwn, a'r unig wahaniaeth rhwng y ddau oedd yr effaith ar y gyllideb briffyrdd. Gan nad oedd yr adroddiad cyntaf wedi cael ei gefnogi, yr unig gasgliad y gallai ddod iddo oedd bod y mater hwn yn ymwneud mwy â'r diffyg yn y gyllideb na thrigolion.

Ceisiodd yr Aelod eglurhad hefyd ynglŷn â pha asesiadau risg a gwblhawyd cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, a pha asesiadau risg eraill sydd wedi cael eu gwneud ers hynny, a chynigiodd fod y penderfyniad ar y cynnig yn cael ei wneud trwy gyfrwng pleidlais wedi'i chofnodi.

Eiliwyd y cynnig a'r alwad am bleidlais wedi'i chofnodi gan Aelod.

Wrth gefnogi'r cynnig, cadarnhaodd yr Aelod nad oedd yn gwrthwynebu arbed arian a lleihau carbon, ond teimlai fod rhaid i ddiogelwch y cyhoedd gael ei ailystyried gan fod y rhaglen ar waith ac y gellid mesur ei heffaith ar drigolion yn iawn. Cyfeiriodd yr Aelod at wybodaeth a ddarparwyd gan yr Arolygydd Aled George o Heddlu Gwent, lle y soniodd am gynnydd mewn byrgleriaethau annedd, yr oedd yr Aelod yn credu eu bod o ganlyniad i oleuadau rhannol yn y nos. Yna, cyfeiriodd yr Aelod at lefelau troseddau yn ardal Parc Lansbury a bod y goleuadau yno wedi cael eu troi ymlaen eto oherwydd hynny, a gofynnodd i Swyddogion egluro'r pwynt hwn.

Cadarnhaodd y Swyddog fod y wybodaeth ynglŷn â Pharc Lansbury yn anghywir ac nad oedd y goleuadau wedi cael eu troi ymlaen eto. Esboniodd fod sicrwydd wedi'i roi mai canfyddiad oedd hwn yn deillio o ddiffodd y goleuadau, ond nad oedd troseddau wedi cynyddu mewn gwirionedd, fel y cadarnhawyd gan Heddlu Gwent. Cadarnhaodd y Swyddog hefyd er na chynhaliwyd asesiad risg cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, bod dadansoddiad o risg wedi cael ei gynnal ar gyfer pob ardal ac y gellir dosbarthu'r data ar bob un i'r Aelodau ar ôl y cyfarfod.

Mynegodd Aelod ei bryder ynglŷn â'r cais am adolygiad yn y cynnig, gan ei fod yn credu bod holl bolisïau'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd sut bynnag, ac yn cael eu hadolygu'n

gyson wrth i amser fynd heibio, gan olygu bod y cais yn ddiangen. Yna, ceisiodd yr Aelod eglurhad ynglŷn â faint o dunelli o garbon fydd yn cael eu harbed trwy oleuadau rhan-amser yn y nos. Cadarnhaodd y Swyddog, pan fyddai'n gwbl weithredol ar ddiwedd mis Rhagfyr, y byddai 2840 o dunelli o garbon yn cael eu harbed y flwyddyn yn sgil goleuadau rhannol yn y nos a newid i oleuadau LED.

Ceisiodd Aelod eglurhad ynglŷn â chost tynnu'r gosodion presennol, a dywedwyd wrtho fod £4.5m eisoes wedi cael ei fuddsoddi, y byddai'r broses dynnu'n costio oddeutu £300k ond y byddai cynnydd sylweddol mewn costau ar gyfer cyflenwadau ynni hefyd trwy symud i ffwrdd, yn ogystal â mwy o allyriadau carbon. Nododd yr Aelodau fod goleuadau rhannol yn y nos a newid i oleuadau LED yn arbed £940k y flwyddyn.

Cyfeiriodd Aelod at broblemau â diffodd goleuadau'n raddol yn ei ward ei hun, gan nad oedd yn ymddangos eu bod yn troi ymlaen ac yn diffodd yn iawn. Cadarnhaodd y Swyddog fod y ffotogelloedd yn ceisio cyfrifo'r pwynt canol nos yn barhaus, a bod hyn yn gallu amrywio, ond y dylent ganfod y pwynt hwnnw bellach gan ein bod yn nesáu at fisoedd y gaeaf.

Cyfeiriodd Aelod at ddatganiad o 'Fuddsoddi mewn Dyfodol Mwy Disglair' gan Fanc y Byd, a nododd ystod o fuddion economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â strydoedd wedi'u goleuo'n dda. Cyfeiriodd hefyd at y Ganolfan Biotechnoleg Genedlaethol o ran yr esgeulustod canfyddedig sy'n gysylltiedig â dileu gwasanaethau anstatudol fel goleuadau stryd, ac anogodd yr Aelodau i ystyried hyn pan gyflwynir y rownd nesaf o gynigion arbed yn y gyllideb.

Yna, mynegodd Aelod arall bryder bod y Cyngor, yn ei farn ef, wedi methu ag ymchwilio'n gywir i oleuadau rhannol yn y nos ac nad oedd asesiadau risg ehangach wedi cael eu cwblhau ar yr opsiynau. Cyfeiriodd at ran o'r adroddiad cynharach a oedd yn datgan y gallai asesiadau risg ehangach gael eu hystyried cyn gweithredu. Credai nad oedd y rhain wedi cael eu cynnal, a oedd yn groes i Safonau Prydeinig yn ei farn ef. Holodd hefyd pam nad oedd opsiynau fel pylu wedi cael eu hystyried cyn gweithredu.

Cadarnhaodd y Swyddog fod asesiadau risg wedi cael eu cynnal ym mhob ardal cyn y gwaith gosod, a derbyniodd nad oedd hyn wedi cael ei wneud cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Fodd bynnag, roedd pob ardal wedi cael ei hasesu cyn y newid, ond nid oedd yr Aelod wedi ystyried y buddsoddiad ymlaen llaw o £1.4m mewn technoleg system reoli ganolog a'r ffaith nad oedd yr hen system LED yn gydnaws ac y byddai wedi costio £1.5m arall i'w huwchraddio. Wrth ymateb i gwestiynau ynglŷn ag iechyd a diogelwch, dywedodd fod ystadegau damweiniau wedi dangos gostyngiad bach.

Derbyniodd yr Aelod gostau ychwanegol y system reoli, ond teimlai y byddai hyn wedi bod yn llai drud pe byddai wedi cael ei weithredu ar y dechrau. Fodd bynnag, credai fod angen i hyn gael ei adolygu o hyd.

Rhoddodd y Swyddog gyngor pellach i'r Aelodau ar y Safon Brydeinig a ddyfynnwyd, a chadarnhaodd mai arweiniad i'r diwydiant oedd y cod ymarfer hwn, ac nid deddfwriaeth. Y ddeddfwriaeth berthnasol yw'r Ddeddf Priffyrdd, sy'n rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol (yn eu rôl fel Awdurdodau Priffyrdd) droi ymlaen, diffodd, diwygio a dileu goleuadau stryd, a phwysleisiodd nad oes rhaid i ni ddarparu goleuadau stryd. At hynny, mae'r Ddeddf yn rhoi'r grym i Awdurdodau Priffyrdd ddiffodd a/neu ddileu goleuadau stryd presennol heb ofyniad i'w hamnewid, fel y gwêl orau. O ran y neges e-bost gan yr Aelod ynglŷn â'r system reoli ganolog a'r arbedion bras a gynhwysir ynddi, cadarnhaodd y Swyddog ymhellach fod goleuadau LED y Cyngor yn rhai 20w, sef watedd isel iawn, ac na fyddent yn cyflawni'r arbedion a amcangyfrifwyd gan fod y rheiny wedi'u seilio ar 60w.

Yna, mynegodd Aelod bryderon ynglŷn â'r ystadegau damweiniau a ddyfynnwyd a ph'un a ydynt yn ymwneud â damweiniau cerddwyr neu gerbydau. Yn ei ward ef, roedd wedi cael cwynion gan bobl sy'n byw ar strydoedd nad oes iddynt ffryntiad ac y mae'n rhaid iddynt adael biniau sbwriel ar balmentydd dros nos y mae pobl yn cerdded i mewn iddynt.

Cadarnhaodd y Swyddog y gallai ddosbarthu'r ystadegau damweiniau ar ôl y cyfarfod. Newydd gyrraedd oedd y wybodaeth, felly nid oedd wedi gallu cwblhau dadansoddiad llawn. Fodd bynnag, roedd y data lefel uchel yr oedd wedi edrych arno'n ymwneud â cherbydau neu gerbydau/cerddwyr, ac ni fyddai'n cofnodi achosion o lithro, baglu a chwympo. Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw gwynion am finiau. O'r rhai hynny a dderbyniwyd, esboniodd fod 74 yn cwyno bod y goleuadau LED newydd yn rhy lachar, roedd 57 yn cwyno nad oedd unrhyw olau'n gorlifo ac roedd 96 yn ymwneud â darparu goleuadau rhannol yn y nos. O'r rheiny, roedd y mwyafrif yn gysylltiadau anffurfiol a dim ond 2 ohonynt a symudodd ymlaen i gwynion cam 2. Os oedd unrhyw feysydd pryder penodol, byddai'n fwy na pharod i drafod y rhain ymhellach gydag Aelodau ar ôl y cyfarfod.

Atgoffodd Aelod y rhai a oedd yn bresennol o'r statws argyfwng hinsawdd a'r angen i'w gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a gwelodd hyn fel man cychwyn ar y trywydd hwnnw. Fodd bynnag, gofynnwyd iddo'n aml ynglŷn â goleuadau swyddfa'r Cyngor a Thŷ Penallta, a holodd p'un a fyddai hyn yn rhan o raglen leihau debyg.

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd y byddai'r goleuadau hyn yn dod o dan y gyllideb rheoli cyfleusterau yn hytrach na phriffyrdd, ac felly ni fyddent yn rhan o'r adroddiad. Fodd bynnag, gallai roi sicrwydd bod hyn yn rhan o broses debyg o adolygu, lleihau a diffodd, a'i fod eisoes wedi cael ei gweithredu mewn rhai ardaloedd.

Cyfeiriodd Aelod at sylwadau a wnaed mewn cyfarfod blaenorol ynglŷn â pharchu safbwyntiau'r pwyllgor craffu, ac atgoffodd y rhai a oedd yn bresennol nad oedd y cynnig hwn wedi cael ei gefnogi gan y pwyllgor craffu, gan ei fod yn crybwyll gweithdrefnau hanesyddol yn unig ac nid oedd yn ceisio symud materion ymlaen. Nododd na chyfeiriwyd at y ddadl fioamrywiaeth, a darllenodd neges e-bost gan un o drigolion y Fwrdeistref Sirol a oedd yn annog yr Aelodau i ystyried eu dyletswydd i groesawu'r buddion i'r amgylchedd naturiol. Yna, cyfeiriodd yr Aelod at waith Dr C McGreggor ar yr effaith amgylcheddol a bywyd nosol. Teimlai y byddai'n well petai'r arian i ddiwygio yn cael ei wario ar rywbeth arall, neu pe byddai cefnogwyr y cynnig yn dymuno diwygio'r polisi hwn, eu bod yn dychwelyd gyda safbwyntiau ar sut i ddiwygio'r gyllideb i dalu am y costau ychwanegol. Cyfeiriwyd hefyd at yr effaith gadarnhaol ar gymuned awyr dywyllach.

Ceisiwyd eglurhad ynglŷn â ph'un a oedd y system newydd yn caniatáu ar gyfer troi'r goleuadau ymlaen pe byddai angen. Cadarnhaodd swyddogion y gellid gwneud hyn pe byddai angen a'u bod yn gweithio'n agos gyda'r heddlu yn hyn o beth. O ran y cynnydd mewn byrgleriaethau, nodwyd bod y mwyafrif yn digwydd yn ystod y dydd. Tawelwyd meddwl yr Aelod bod modd i ymateb pe byddai'r heddlu'n mynegi pryderon.

Roedd Aelod wedi annog y Cyngor i ailystyried y penderfyniad hwn a chefnogi'r cynnig er mwyn cyflawni ei ddyletswydd i'r rhai hynny sy'n byw ar eu pen eu hunain, yr henoed a gweithwyr sifft, a gwrando ar y rhai hynny a oedd wedi llofnodi deisebau a chwyno. Gan gefnogi sylwadau'r siaradwr blaenorol, roedd Aelod o'r farn ei bod yn bwysig gwrando ar drigolion a oedd yn mynegi pryderon a bod y rhaglen yn cael ei hadolygu.

Cyfeiriwyd at sylwadau cynharach ar oleuadau Tŷ Penallta a gweithredu camerâu teledu cylch cyfyng (CCTV), a holwyd a oedd goleuadau'n cael eu gadael ymlaen er mwyn i gamerâu CCTV weithredu yng nghanol tref Ystrad Mynach. Cadarnhaodd y Swyddog fod goleuadau canol y dref yn aros ymlaen at ddibenion CCTV ac er mwyn diogelwch canol trefi.

Atgoffwyd yr Aelodau o'r gefnogaeth unfrydol i'r datganiad ynghylch Argyfwng Hinsawdd a chanlyniadau ofnadwy'r stormydd a brofwyd eleni, a oedd yn dangos effaith a chostau'r newid yn yr hinsawdd yn glir. Roedd dyletswydd i wneud y penderfyniadau iawn er mwyn cenedlaethau'r dyfodol. Derbyniwyd na fyddai'r rhain yn benderfyniadau rhwydd, ond roedd goleuadau rhannol yn y nos yn newid cymedrol i fywydau pob dydd a fyddai'n cael effaith fawr

ar yr amgylchedd. Trwy beidio â chefnogi'r penderfyniad hwn nawr, teimlai ein bod yn condemnio cenedlaethau'r dyfodol i ddinistr y newid yn yr hinsawdd.

Cofiodd Aelod am y gefnogaeth drawsbleidiol i'r newid i oleuadau LED ac yna'r gefnogaeth ddiweddarach i'r newid i oleuadau rhannol yn y nos, sef camau yr oedd yr un Aelodau bellach yn argymell eu gwrthdroi, a theimlai na allai unrhyw un gefnogi hynny. Anogodd yr Aelodau i ystyried y goblygiadau ariannol a'r goblygiadau seilwaith. Cydnabu'r pryderon ynglŷn â diogelwch gartref, ond nid oedd yr ystadegau'n cefnogi hyn. Yn hytrach, ceir canfyddiad o fwy o droseddau, ac mae angen tawelu meddwl trigolion ynglŷn â'r canfyddiad hwn. Mae astudiaethau wedi dangos nad oes cysylltiad rhwng diffodd goleuadau a mwy o droseddau. Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan yr Heddlu yn gofyn i'r polisi hwn gael ei newid. Petai ceisiadau o'r fath wedi dod i law, byddent wedi derbyn sylw. Mae'r rhan fwyaf o achosion o dorri i mewn i gartrefi yn digwydd yn y prynhawn ac yn gynnar gyda'r nos, nid yn ystod oriau goleuadau rhannol yn y nos. Cyfeiriodd eto at yr effaith ar yr amgylchedd a dinistr y newid yn yr hinsawdd, a'r pwysigrwydd ein bod yn gweithredu ar hyn nawr neu wynebu niwed anwrthdroadwy i'r byd naturiol.

Ac yntau'n gynigiwr y cynnig, daeth y Cynghorydd Etheridge â'r ddadl i ben a phwysleisiodd fod y cynnig ond yn gofyn am adolygu'r penderfyniad ar Oleuadau Rhannol yn y Nos, a hynny'n unig. Gofynnodd i'r Aelodau ystyried hyn a'r effaith ar gymunedau wrth wneud eu penderfyniad.

Gan fod pleidlais wedi'i chofnodi wedi cael ei chynnig a'i heilio, cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod 10 Aelod wedi cefnogi'r cynnig a chynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi.

O blaid y Cynnig:
Cynghorwyr: A. Angel, B. Bevan, L. Binding, N. Dix, K. Etheridge, A. Farina Childs, R. Gough, M. James, S. Kent, C. Mann, B. Owen, T. Parry, J. Roberts, M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, S. Skivens, J. Taylor, L. Whittle (19)

Yn erbyn y Cynnig:
Cynghorwyr: M. Adams, E.M. Aldworth, C. Andrews, J. Bevan, C. Bezzina, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, M. Evans, A. Gair, J. Gale, N. George, C. Gordon, L. Harding, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, L. Jeremiah, G. Johnston, G. Kirby, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, L. Phipps, D. Poole, D. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, R. Saralis, J. Simmonds, E. Stenner, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski (41)

Cyhoeddwyd bod y cynnig wedi'i golli.

PENDERFYNWYD na fyddai'r cynnig yn cael ei gefnogi.

## 13. HYSBYSIAD O GYNNIG – SIARTER UNDOD DROS YMRANIAD

Rhoddwyd ystyriaeth i'r hysbysiad o gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Philippa Marsden.

I gefnogi ei hysbysiad o gynnig, cyfeiriodd y Cynghorydd Marsden at y newidiadau cymdeithasol a gwleidyddol enfawr a welwyd yn y wlad yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf a'r ffaith bod hyn wedi arwain at ymraniadau cymdeithasol mawr, yn enwedig ar sail hil, ethnigrwydd, crefydd a chenedligrwydd. Un o'r canlyniadau sy'n achosi'r pryder mwyaf yw'r cynnydd mawr mewn troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt, sydd wedi cynyddu bron 30% ers 2016. Byddai'r Siarter Undod dros Ymraniad yn ymrwymiad gan y Cyngor hwn i ddileu gwahaniaethu hiliol ac anoddefgarwch o bob math.

Diolchodd y Cynghorydd Marsden i'r rhai a oedd wedi cefnogi'r cynnig a dywedodd yr hoffai hefyd ychwanegu at y cynigion trwy gynnig bod gweminar yn cael ei chynnal i'r Aelodau ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.

Mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r cynnig a'r weminar.

Ar ôl cael ei gynnig a'i eilio, a thrwy gyfrwng cadarnhad trwy Microsoft Forms ac ar lafar, cefnogwyd y cynnig yn unfrydol.

PENDERFYNWYD:

(i) Bod yr hysbysiad o gynnig yn cael ei gefnogi;

(ii) Bod Hyrwyddwr Cynhwysiant yn cael ei benodi, a fydd yn unigolyn arweiniol ar gyfer agenda'r Siarter Undod dros Ymraniad, gyda chymorth Undebau Llafur a'r Cyngor, i gydweithredu, monitro, hwyluso a hyrwyddo cynhwysiant yn y gweithle lle bynnag y bo'n bosibl.

(iii) Sicrhau bod pob aelod o staff, gan gynnwys ysgolion, yn cael hyfforddiant gorfodol ar sut i lynu wrth Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor, a sicrhau bod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

(iv) Ynghyd ag Undebau Llafur, darparu deunyddiau cyfredol a llawn gwybodaeth i helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a chytgord yn y gweithle.

(v) Sefyll gydag Undebau Llafur i gondemnio digwyddiadau lle y ceir enghreifftiau lleol a chenedlaethol o droseddau casineb a gwahaniaethu.

(vi) Gweithio gyda'r holl asiantaethau a sefydliadau eraill priodol i hyrwyddo cydlyniant y tu mewn a'r tu allan i'r gweithle.

(vii) Cynnal gweminar i'r Aelodau ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a'r Siarter Undod dros Ymraniad.

## 14. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL, AMCANION A CHAMAU GWEITHREDU 2020-2024

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 25 Chwefror 2020 a'r Cabinet ar 11 Mawrth 2020. Roedd yr adroddiad bellach yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn mynnu bod pob awdurdod cyhoeddus yn datblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 wedi cael ei adolygu'n llawn i adlewyrchu newidiadau i arfer gorau ac amcanion, ac i ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Mae'r Amcanion a'r Cynllun Gweithredu cyfunol wedi cael eu datblygu i ystyried cyflawniadau a chynnydd, ac wedi'u huno'n un ddogfen weithredol.

Nodwyd bod y Cynllun wedi cael ei ddatblygu fel bod y Cyngor yn gallu amlinellu sut mae'n bwriadu bodloni ei ymrwymiad i gydraddoldeb a sut y bydd yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi defnyddio dogfennau allweddol i helpu i ddatblygu'r cynllun diwygiedig, fel Cynllun Corfforaethol 2018-2023 a Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir yr Adran Addysg, yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd gan Reolwyr Gwasanaeth.

Nododd yr Aelodau fod yr adborth o'r broses ymgynghori yn gefnogol iawn o'r amcanion drafft yn gyffredinol. Roedd meysydd i'w gwella a rhwystrau a amlygwyd wedi'u cynnwys fel camau gweithredu o dan bob Amcan Cydraddoldeb perthnasol. Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 a'r camau gweithredu cysylltiedig yn sicrhau bod gan y Cyngor ddogfen sy'n addas i'r diben sy'n cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol diweddaraf yn ymwneud â chydraddoldeb a'r Gymraeg. Fe'i datblygwyd yn unol â gofynion deddfwriaethol a chanllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Ar ôl cael ei gynnig a'i eilio, ac am y rhesymau a roddwyd yn adroddiad y Swyddog a thrwy gyfrwng cadarnhad trwy Microsoft Forms ac ar lafar, cytunwyd ar yr argymhelliad a gynhwyswyd ynddo yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2020-2024 fel polisi'r Cyngor.

## 15. NIFER Y PWYLLGORAU CRAFFU

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg Aelodau a gynhaliwyd ddeuddeg mis ar ôl gweithredu'r strwythur pwyllgorau craffu presennol, ac a ystyriwyd hefyd gan y Grŵp Arweinyddiaeth Craffu yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod rhai o'r sylwadau a gododd o'r arolwg yn cynnwys gwell presenoldeb mewn cyfarfodydd ffurfiol a chyn-gyfarfodydd, a bod adolygiad llawn o'r swyddogaethau craffu yn cael ei gynnal maes o law.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y pwyntiau a godwyd yn yr arolwg ynglŷn â lefelau presenoldeb mewn cyfarfodydd craffu a chyfranogiad llawn Aelodau, a phwysleisiodd pa mor bwysig oedd hyn. Adleisiwyd y farn honno gan Arweinydd Grŵp Plaid Cymru a Chadeirydd y Grŵp Arweinyddiaeth Craffu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'i gynnwys yn llawn, ac am y rhesymau a gynhwyswyd ynddo, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo, a thrwy gyfrwng cadarnhad trwy Microsoft Forms ac ar lafar (gan nodi bod 50 o blaid ac 1 ymataliad), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD: -

(i) nodi'r adroddiad;

(ii) cadw nifer bresennol y pwyllgorau craffu (5).

## 16. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y PRIF WEITHREDWR YN YSTOD Y PANDEMIG

Cadarnhaodd y Maer fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth yn unig, a'i fod yn rhestru'r penderfyniadau a wnaed gan y Prif Weithredwr o dan bwerau dirprwyedig yn ystod y cyfyngiadau symud. Oni bai bod cwestiynau gan Aelodau, byddai'r cyfarfod yn symud ymlaen i'r eitem nesaf. Nid oedd unrhyw gwestiynau, a nodwyd yr adroddiad er gwybodaeth.

## 17. GWASANAETH OLRHAIN CYSYLLTIADAU GWENT

Cadarnhaodd y Maer fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried fel eitem frys gan y Cabinet ar 30 Gorffennaf 2020 ac, yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fel mater o frys gael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor, gan roi'r rhesymau dros ei

natur frys. Felly, gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r rhesymau dros natur frys yr adroddiad a Phenderfyniad y Cabinet.

Nodwyd yr adroddiad felly.

**18. CYNNIG DATBLYGIAD ARLOESOL CARTREFI CAERFFILI – LLANFABON DRIVE, TRETOMAS, THE CRESCENT, TRECENYDD AC YSGOL GYFUN OAKDALE**

Cadarnhaodd y Maer fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried fel eitem frys gan y Cabinet ar 9 Medi 2020 ac, yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fel mater o frys gael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor, gan roi'r rhesymau dros ei natur frys. Felly, gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r rhesymau dros natur frys yr adroddiad a Phenderfyniad y Cabinet.

Mynegodd Aelod ei siom ynglŷn â dyluniad y datblygiad arfaethedig yn The Crescent, Trecenydd, gan ei fod o'r farn ei fod yn anniddorol, yn ddiflas ac yn dangos diffyg dychymyg. Gwrthbrofodd Aelod y Cabinet dros Dai ac Eiddo y pryderon a godwyd, a oedd o'r farn bod y cynnig, mewn gwirionedd, yn gyffrous, yn feiddgar ac yn llawn dychymyg. Atgoffwyd yr Aelod nad oedd y mater hwn wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio eto, ac mai dyna fyddai'r lle iawn i fynd i'r afael ag unrhyw faterion neu bryderon ynglŷn â'r cynigion dylunio.

Nodwyd yr adroddiad felly.

Daeth y cyfarfod i ben am pm

Cymeradwywyd bod y cofnodion yn gofnod cywir, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 17 Tachwedd 2020, ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

________________________

Y MAER